Archwilio Cymru
Audit Wales

# Llamu Ymlaen – Rheoli Asedau'n Strategol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr


Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3133A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a roddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth drin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon gael eu hanfon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Yr hyn a adolygwyd a pham 4

Yr hyn a ganfuwyd 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Gwnaeth y Cyngor gynnydd cadarnhaol wrth gyflawni ei strategaeth rheoli asedau flaenorol ac mae angen iddo bellach sicrhau bod cynlluniau asedau strategol yn y dyfodol wedi eu llywio'n llawn gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, mae heriau'r gweithlu yn effeithio ar ei allu i gynllunio'n fwy strategol ac yn feirniadol, i sicrhau bod ei adeiladau'n bodloni gofynion diogelwch statudol 7

Mae gan y Cyngor gynllun rheoli asedau tymor byr dros dro ar waith wrth iddo benderfynu ar ei fodel gweithredu yn y dyfodol a bydd angen iddo sicrhau bod ei ddull tymor hwy ar gyfer ei asedau wedi ei lywio'n llawn gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy 7

Gwnaeth y Cyngor gynnydd cadarnhaol wrth weithredu ei strategaeth rheoli asedau blaenorol. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol yn y gweithlu yn effeithio ar ei allu i gynllunio'n fwy strategol, a sicrhau bod ei adeiladau'n bodloni gofynion adeiladau statudol 10

Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i adolygu ei asedau ac mae'n gwella'r systemau i lywio'r trefniadau hyn, ond fel llawer o gynghorau eraill, nid yw’n meincnodi nac yn dysgu oddi wrth gynghorau eraill 13

# Adroddiad cryno

## Yr hyn a adolygwyd a pham

1 Gwnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau gan ganolbwyntio'n bennaf ar le swyddfa ac adeiladau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau i'w drigolion. Edrychwyd ar sut y mae'r Cyngor yn cynllunio’n strategol y defnydd o'i asedau, sut mae'n monitro'r defnydd o'i asedau a sut mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.

2 Cynhaliwyd yr adolygiad hwn wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddefnyddio profiadau pandemig byd-eang Covid 19, i edrych ar sut y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y modd y darperir gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.

3 Rydym wedi cynnal y prosiect hwn ym mhob cyngor fel rhan o'n cynlluniau archwilio 2021 i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd tri phrif nod i'r prosiect:

- cael sicrwydd bod cynghorau'n rhoi trefniadau ar waith i drawsnewid, addasu a chynnal y gwasanaethau sy'n cael eu darparu;
- egluro'r camau y mae cynghorau'n eu cymryd yn unigol ac ar y cyd i gryfhau eu trefniadau; ac
- ysbrydoli cynghorau a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach drwy gasglu a rhannu enghreifftiau o arfer a dysgu nodedig a gwneud argymhellion priodol.

**Arddangosyn 1: sylfaen asedau**

Mae'r tabl isod yn amlinellu agweddau allweddol ar sylfaen asedau'r Cyngor yn 2022.

| Math o ased | Nifer |
|---|---|
| Swyddfeydd Corfforaethol Craidd | 5 |
| Ysgolion | 59 |
| Canolfannau hamdden | 8 |

| Math o ased | Nifer |
| --- | --- |
| Llyfrgelloedd | 4 ar wahân<br>7 wedi’u lleoli mewn canolfannau hamdden neu gymunedol |
| Canolfannau Cymunedol | 8 a reolir yn uniongyrchol gan y Cyngor<br>17 wedi'u prydlesu i drydydd parti |
| Cartrefi preswyl | 10 |
| Canolfannau ailgylchu | 3 |

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

4 Mae Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor ar gyfer 2021-22 yn nodi bod gan y Cyngor gyfanswm gwerth asedau o £484.5 miliwn.

5 Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Chwefror 2022.

## Yr hyn a ganfuwyd

6 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: A yw dull strategol y Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a chynnal darpariaeth ei wasanaethau yn y tymor byr a'r tymor hwy?

7 Ar y cyfan, gwelsom fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol wrth gyflawni ei strategaeth rheoli asedau flaenorol ac mae angen iddo bellach sicrhau bod cynlluniau asedau strategol yn y dyfodol wedi eu llywio'n llawn gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, mae heriau'r gweithlu yn effeithio ar ei allu i gynllunio'n fwy strategol ac yn feirniadol, i sicrhau bod ei adeiladau'n bodloni gofynion diogelwch statudol.

8 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae gan y Cyngor gynllun rheoli asedau tymor byr dros dro ar waith wrth iddo benderfynu ar ei fodel gweithredu yn y dyfodol a bydd angen iddo sicrhau bod ei ddull tymor hwy ar gyfer ei asedau wedi ei lywio'n llawn gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy

- gwnaeth y Cyngor gynnydd cadarnhaol wrth weithredu ei strategaeth rheoli asedau blaenorol. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol yn y gweithlu yn effeithio ar ei allu i gynllunio'n fwy strategol, a sicrhau bod ei adeiladau'n bodloni gofynion adeiladau statudol
- mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i adolygu ei asedau ac mae'n gwella'r systemau i lywio'r trefniadau hyn, ond fel llawer o gynghorau eraill, nid yw'n meincnodi nac yn dysgu oddi wrth gynghorau eraill.

## Argymhellion

**Argymhellion**

**Cynllunio asedau'n strategol**

A1 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn sbarduno ac yn llywio ei ddull o ymdrin â'i holl asedau wrth iddo ddatblygu ei strategaeth yn ystod 2022. Er enghraifft:

- integreiddio i'w gynllun gweithlu ac i strategaethau allweddol eraill a chynllunio busnes;
- adlewyrchu'r galw tymor hwy am wasanaethau;
- ystyried sut y gall sicrhau'r buddion mwyaf posibl o gydweithio â sefydliadau eraill; a
- penderfynu ar opsiynau mwy hirdymor a chynaliadwy ar gyfer mynd i'r afael â'i ôl-groniad cynnal a chadw a gwella cyflwr ei ystâd.

**Cydymffurfedd Adeiladau Statudol**

A2 Dylai'r Cyngor roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'i berfformiad cydymffurfio statudol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch fel ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn ymwneud â phrofion trydanol, nwy, asbestos, legionella, a risg tân.

**Trefniadau monitro ac adolygu**

A3 Dylai'r Cyngor ddatblygu cyfres o fesurau meintiol ac ansoddol strategol i wella'i allu i ddeall effeithiau ei gynlluniau a'i gamau o ran asedau fel rhan o ddatblygu ei strategaeth yn ystod 2022.

A4 Er mwyn cryfhau ei drefniadau, yn ystod y 12 mis nesaf, dylai'r Cyngor archwilio sut y gall gymharu ei ddata, ei drefniadau, a'r dysgu gan sefydliadau eraill, er enghraifft drwy rwydweithiau proffesiynol presennol.

# Adroddiad manwl

## Gwnaeth y Cyngor gynnydd cadarnhaol wrth gyflawni ei strategaeth rheoli asedau flaenorol ac mae angen iddo bellach sicrhau bod cynlluniau asedau strategol yn y dyfodol wedi eu llywio'n llawn gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

## Fodd bynnag, mae heriau'r gweithlu yn effeithio ar ei allu i gynllunio'n fwy strategol ac yn feirniadol, i sicrhau bod ei adeiladau'n bodloni gofynion diogelwch statudol.

### Mae gan y Cyngor gynllun rheoli asedau tymor byr dros dro ar waith wrth iddo benderfynu ar ei fodel gweithredu yn y dyfodol a bydd angen iddo sicrhau bod ei ddull tymor hwy ar gyfer ei asedau wedi ei lywio'n llawn gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy

#### Pam mae gosod gweledigaeth glir yn bwysig

- Mae strategaeth rheoli asedau clir a chynlluniau cyflawni sydd wedi'u datblygu'n dda yn bwysig er mwyn nodi'r defnydd arfaethedig o asedau yn y tymor byr a'r tymor hwy; yr arian sydd ar gael i gynnal a datblygu asedau, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol a'r gost. Mae hefyd yn bwysig nodi sut mae'r strategaeth rheoli asedau yn cyd-fynd ac wedi'i hintegreiddio i strategaethau perthnasol eraill gan gynnwys gweithio ystwyth, gweithlu, lleihau digidol a charbon. Gall dysgu o'r newidiadau a ddaeth yn sgil pandemig byd-eang COVID-19, helpu cynghorau i gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal darpariaeth gwasanaethau.

#### Yr hyn a ganfuwyd:

- Roedd Cynllun Rheoli Asedau (AMP) blaenorol y Cyngor yn cynnwys 12 mlynedd ac fe ddaeth i ben yn 2021. Wrth gydnabod yr ansicrwydd a ddaeth yn sgil y pandemig a'r angen i flaenoriaethu ymateb i'r pandemig, mae'r Cyngor wedi datblygu AMP dros dro tan ddiwedd 2022. Mae'r amserlen hon yn cysylltu â Chynllun Corfforaethol a Strategaeth Gyfalaf wedi'i diweddaru gan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi nodi gweledigaeth glir yn ei AMP dros dro "i fod ag ystâd gynaliadwy dda sy'n galluogi'r Cyngor i fyw o fewn ei fodd a chefnogi cyflawniad ein hamcanion lles". Mae'r AMP dros dro yn nodi pedwar amcan

sy'n sail i'w weledigaeth. Mae amrywiaeth o brosiectau a chamau i wireddu'r amcanion hyn a lliniaru effaith y pandemig.

- Mae'r AMP dros dro yn cysylltu ag amcan llesiant y Cyngor, 'Defnyddio Adnoddau'n Gallach'. Mae hefyd yn tynnu sylw at sut y bydd yn cefnogi'r Cyngor i leihau ei ôl-troed carbon. Mae'r Cyngor wrthi'n diffinio sut y bydd yn gweithredu yn y dyfodol, felly nid yw wedi mynegi ei gynlluniau tymor hwy eto na sut y byddant yn cyd-fynd â'i gilydd. Er enghraifft, nid yw'r AMP dros dro yn ystyried adnoddau a chynlluniau allweddol eraill, fel digidol a gweithlu, er y bydd y rhain yn amlwg yn effeithio ar ei gilydd. Felly mae pwyslais y cynllun dros dro hwn yn un tymor byr yn fwriadol wrth i'r Cyngor bennu ei fodel gweithredu yn y dyfodol, gan gydnabod y gallai hyn ddylanwadu ar ei ddull strategol o ymdrin â'i asedau.
- Fel nifer o sefydliadau, mae'r pandemig wedi cyflymu rhai o'i gynlluniau ar gyfer ei ystâd. Mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp Model Darparu Gwasanaethau yn y Dyfodol er mwyn ystyried sut y bydd y Cyngor yn symud ymlaen o'r pandemig. Mae lle swyddfa yn un o ffrydiau gwaith y grŵp hwn. Dylai'r grŵp hwn ddarparu mecanwaith defnyddiol i hwyluso dull integredig o gynllunio a gweithredu ei fodel gweithredu.
- Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â'i swyddogion i ddeall y galw presennol a'r angen am le swyddfa. Mae wedi nodi cyfres o egwyddorion a fyddai'n sail i'w fodel darparu gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys modelau gweithio hybrid neu gymysg. Mae'r Cyngor yn bwriadu aros nes bod y Cabinet yn cytuno ar ei fodel gweithio yn y dyfodol cyn gwneud rhagor o benderfyniadau ynghylch ei le swyddfa. Byddai hyn yn cynnwys a all ad-drefnu ei ystâd ymhellach neu archwilio opsiynau ar gyfer gwaith rhanbarthol a phartneriaeth.
- Mae'r Cyngor wedi amcangyfrif bod cost ei ôl-groniad cynnal a chadw oddeutu £63 miliwn. Mae gan y Cyngor amrywiaeth o gronfeydd wrth gefn a chronfeydd i helpu gyda'r ôl-groniad hwn. Fodd bynnag, mae swm y rhain yn disgyn yn sylweddol fyr o'r £63 miliwn sydd ei angen i fynd i'r afael â'i ôl-groniad cynnal a chadw yn ei gyfanrwydd. Felly, mae'r Cyngor yn blaenoriaethu gwaith gan ddefnyddio matrics sy'n blaenoriaethu materion iechyd a diogelwch. Risg y dull hwn yw nad yw materion yn cael sylw nes eu bod wedi dod yn fwy difrifol, ac o bosib yn fwy costus. Byddem yn disgwyl i'r AMP nesaf ystyried opsiynau mwy cynaliadwy ar gyfer mynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw a gwella cyflwr ei ystâd.
- Bwriad y Cyngor yw datblygu AMP wyth mlynedd yn ystod 2022, fydd yn ei gymryd hyd at 2030. Bydd hyn yn gyfle i'r Cyngor ystyried ei gynlluniau tymor canolig. Bydd hefyd yn ei alluogi i gysoni â chynlluniau a strategaethau corfforaethol eraill, fel y cynllun 'Carbon sero net erbyn 2030'.
- Canfu ein hadolygiad hefyd fod y Cyngor yn ymwybodol o'r effaith y gallai ei benderfyniadau ei chael ar yr economi leol. Roedd swyddogion yn ystyried y gwahanol gyfleoedd a'r heriau a allai ddylanwadu ar ei ddull strategol o

ymdrin â'i asedau, fel ei fframwaith dyfodol economaidd, cynllun datblygu lleol, gwelliannau trafnidiaeth, a mwy o weithio rhanbarthol.

- Wrth i'r Cyngor ystyried ei ddull strategol o ymdrin â'i asedau, mae'n bwysig ei fod yn sicrhau bod hyn yn cael ei lunio'n llawn gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, dylai'r Cyngor:
  - mabwysiadu dull tymor hwy o gynllunio'i asedau. Mae canllawiau statudol y Ddeddf yn nodi, 'y disgwyl yw y bydd cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn edrych o leiaf 10 mlynedd i'r dyfodol, er mai'r arfer gorau fyddai edrych 25 mlynedd i'r dyfodol. Mewn rhai cyd-destunau, bydd yn hirach.' Er mwyn gwneud hyn, mae angen i'r Cyngor ystyried tueddiadau mwy hirdymor a galw am wasanaethau yn y dyfodol a allai effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau a'r defnydd effeithlon o'i asedau adeiledig.
  - sicrhau ei fod yn cymryd agwedd integredig at ei gynllunio o'r cychwyn cyntaf i sicrhau'r canlyniadau gorau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Bydd ei agwedd at ei weithlu, ystadau ac adnoddau digidol yn amlwg yn effeithio ar ei gilydd. Nid oes gan y Cyngor gynllun gweithlu strategol ac nid yw'r strategaeth ddigidol ac AMP dros dro yn cyd-fynd ar hyn o bryd.
  - adeiladu ar gysylltiadau â sefydliadau eraill, gan gynnwys y rhai a ffurfiwyd yn ystod y pandemig, i archwilio cyfleoedd pellach i rannu a chydweithio ar asedau i helpu i sicrhau buddion cydfuddiannol a rhanbarthol.
  - cryfhau ei ddull o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn ei ystyriaethau o ddyfodol ei asedau. Bydd rhai o'r cynlluniau y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn cael effaith fwy hirdymor ar sut y darperir gwasanaethau. Rydym yn derbyn y bu ymgysylltu â'r cyhoedd yn heriol yn ystod y pandemig. Rydym yn disgwyl y bydd y Cyngor yn defnyddio cyfnod ei AMP dros dro i gael gwell dealltwriaeth o farn defnyddwyr gwasanaeth ac effaith bosibl newidiadau i'r ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio ei asedau. Yn 2019 canfu arolwg panel dinasyddion y Cyngor nad oedd y rhan fwyaf o breswylwyr yn defnyddio'r gwasanaethau ar-lein a oedd ar gael iddynt, er enghraifft, i dalu'r Dreth Gyngor. Byddai angen i'r Cyngor ddeall a yw'r pandemig wedi newid y darlun hwnnw.
  - ystyried yn ehangach sut y gall ei ddull strategol o ymdrin â'i asedau helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant a sut y gallai effeithio ar gyflawni amcanion llesiant eraill hefyd.

## Gwnaeth y Cyngor gynnydd cadarnhaol wrth weithredu ei strategaeth rheoli asedau blaenorol. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol yn y gweithlu yn effeithio ar ei allu i gynllunio'n fwy strategol, a sicrhau bod ei adeiladau'n bodloni gofynion adeiladau statudol

### Pam mae'n bwysig rheoli'r gwaith o gyflawni newidiadau arfaethedig i asedau mewn modd effeithiol

9 Mae'n bwysig bod cynlluniau rheoli asedau yn cyflawni'r canlyniadau arfaethedig yn effeithlon ac yn effeithiol fel bod gwariant gwirioneddol mor agos at y lefelau a gynlluniwyd â phosibl ac mae cynghorau'n cyflawni eu dyletswyddau statudol. Gall cydweithio effeithiol â sefydliadau eraill a chynnwys cymunedau am eu hanghenion wella'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion. Pan nad oes gan gynghorau'r ystod o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd i reoli'r gwaith parhaus o reoli asedau yn effeithiol a chyflawni newidiadau strategol gall hyn leihau'r gallu i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig.

### Yr hyn a ganfuwyd


- Gwnaeth y Cyngor gynnydd cadarnhaol wrth gyflawni ei strategaeth rheoli asedau blaenorol. Er enghraifft, mae wedi:
  – ad-drefnu ei ystad. Ers 2009, mae'r Cyngor wedi gwerthu amrywiaeth o asedau, sydd wedi gostwng ei ôl-groniad cynnal a chadw ychydig dros £20 miliwn ac wedi cynhyrchu £24 miliwn mewn derbyniadau cyfalaf.
  – manteisio ar gyfleoedd i rannu asedau. Er enghraifft, mae'n rhannu cyfleuster cynnal a chadw fflyd â Heddlu De Cymru ac mae wedi cydleoli â Heddlu De Cymru a'r bwrdd iechyd yn Llys y Gigfran.
  – trefnu ystod o asedau diwylliant a hamdden ar gontract allanol i Awen a Halo yn y drefn honno.
  – trosglwyddo ystod o asedau i Gynghorau Tref a Chymuned, a sefydliadau cymunedol eraill. Cefnogwyd hyn gan swyddog trosglwyddo asedau cymunedol (CAT) pwrpasol a'i seilio ar bolisi ac arweiniad CAT. Mae'r Cyngor wedi amcangyfrif bod y trefniadau CAT hyn wedi arwain at arbedion blynyddol o tua £300,000.
  – trosglwyddo'r gwaith o gynnal a chadw a rheoli asedau o fodel gwasanaethau i fodel landlord corfforaethol yn 2018. Mae'r model hwn yn cynnwys rheoli asedau'n strategol, rheoli cyfleusterau a chynllunio a chyflawni prosiectau mawr.
- Fel sawl sefydliad, mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'n gweithredu ers dechrau'r pandemig. Mae gweithlu swyddfa'r Cyngor wedi

bod yn gweithio o adref ers mis Mawrth 2020. Fe wnaeth y Cyngor ymdrechu'n sylweddol i sicrhau bod y staff hynny a oedd angen gweithio o'i swyddfeydd yn gallu gwneud hynny'n ddiogel. Mae'r Cyngor hefyd yng nghamau cychwynnol ystyried rhagor o newidiadau, fel:

  – caniatáu i wasanaethau a thrafodion syml a symudodd ar-lein yn ystod y pandemig aros ar-lein, a
  – datblygu hybiau lleol, lle mae mynediad at wasanaethau mewn cymunedau lleol yn hytrach na thrwy'r swyddfeydd dinesig.

- Yn ystod y pandemig, bu'r Cyngor yn cydweithio'n agos â'i bartneriaid i ddarparu gwasanaethau a rhannu ei adeiladau. Er enghraifft, defnyddiwyd Llys y Gigfran fel un o'r canolfannau brechu. Mae'r Cyngor yn awyddus i adeiladu ar y profiad hwn. Er enghraifft, mae'n archwilio cyfleoedd i ddefnyddio asedau yn rhanbarthol ac i weithio gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen a Halo Leisure o ran gwasanaethau llesiant ac atal, ond rydym yn deall bod trafodaethau ar gam cynnar.
- Fel nifer o gynghorau eraill, mae'r Cyngor yn profi anawsterau cadw a recriwtio sylweddol yn ei dîm eiddo. Ar hyn o bryd mae ganddo sawl swydd wag gan gynnwys rolau uwch syrfewyr a syrfewyr cyffredinol. Mae rhai swyddi wedi bod yn wag ers dwy flynedd.
- Mae'r Cyngor yn dechrau archwilio gwahanol ffyrdd o drefnu ei dimau er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion capasiti. Mae hefyd yn edrych ar atodiadau marchnad i gyflogau'r ardal hon ac yn gweithio gyda recriwtwyr allanol, ond hyd yn hyn prin fu'r llwyddiant. Mae uwch reolwyr yn cydnabod bod angen iddynt ystyried atebion mwy cynaliadwy i'r heriau hyn.
- Mae capasiti dan straen yn cael effaith ar allu'r Cyngor i gynllunio a gwneud cymaint, mor gyflym ag yr hoffai. Dangosir hyn yn arbennig yng nghyfraddau cydymffurfio adeiladau statudol cysylltiedig ag iechyd a diogelwch y Cyngor fel y dangosir yn **arddangosyn 2** isod. Mae hyn yn cynnwys meysydd fel profion trydanol, nwy, asbestos, legionella, a risg tân.
- Rydym wedi codi pryderon gyda swyddogion am berfformiad y Cyngor o ystyried effeithiau mawr posib diogelwch gwael. Gallwn weld bod y materion yn cael eu trafod mewn gwahanol gyfarfodydd sy'n gysylltiedig ag asedau. Mae swyddogion wedi dweud wrthym eu bod yn gweithio i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, ond hyd yma mae gwelliant yn y perfformiad wedi bod yn araf. Mae **arddangosyn 2** yn dangos y bu rhywfaint o welliant mewn rhai meysydd, ond mae profion nwy a legionella yn parhau i fod yn faterion sylweddol. Mae nodiadau o gyfarfodydd y Bwrdd Landlord Corfforaethol yn awgrymu y bydd y Cyngor yn ei chael hi'n anodd gwella perfformiad heb staff ychwanegol.

**Arddangosyn 2: cydymffurfedd adeiladau statudol y Cyngor**




* yn gyffredinol yn nodi asesiad risg legionella a wnaed yn hytrach na lefelau cydymffurfedd gwirioneddol. Bydd cydymffurfedd gwirioneddol yn is.

Ffynhonnell: Papurau bwrdd cydymffurfio Landlord Corfforaethol Iechyd a Diogelwch Rhagfyr 2021

- Gwelsom ddarlun tebyg yn ein hadolygiad strategol o'r gweithlu yn ogystal â materion cysylltiedig mewn meysydd eraill yr ydym wedi edrych arnynt, megis grant cyfleusterau digidol a rhai i'r anabl. Mae ein hadroddiad gweithlu strategol yn codi pryderon am yr effaith y mae capasiti dan bwysau yn ei chael ar gadernid y Cyngor ac yn rhoi mwy o fanylion am ein canfyddiadau.

## Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i adolygu ei asedau ac mae'n gwella'r systemau i lywio'r trefniadau hyn, ond fel llawer o gynghorau eraill, nid yw'n meincnodi nac yn dysgu oddi wrth gynghorau eraill

### Pam mae adolygu'r gwaith o gyflwyno newidiadau arfaethedig i asedau yn effeithiol yn bwysig

10 Dylai cynghorau ddefnyddio data i fonitro a ydynt yn cyflawni eu canlyniadau arfaethedig yn effeithiol ac effeithlon yn y tymor byr a'r tymor hwy. Gall defnyddio data meincnodi roi cipolwg defnyddiol o berfformiad unigol Cynghorau a gall nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu gan sefydliadau eraill.

### Yr hyn a ganfuwyd

- Fe wnaeth y Cyngor arolygon cyflwr o'i asedau yn 2016 a 2020. Felly, mae'n deall cyflwr, gwerth, costau rhedeg a gofynion cynnal a chadw ei asedau. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chipio'n chwarterol mewn dangosfwrdd. Mae'n cael ei ystyried gan y tîm rheoli adrannol a thrwy broses asesu perfformiad corfforaethol y Cyngor. Fodd bynnag, fel sefydliadau eraill, mae'r costau hyn yn debygol o fod wedi cynyddu oherwydd costau materol cynyddol a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi.
- Ar hyn o bryd, mae data asedau a gwybodaeth rheoli asedau'r Cyngor yn cael eu lledaenu ar draws sawl system meddalwedd. Mae'r Cyngor yn cydnabod cyfyngiadau ei feddalwedd rheoli asedau presennol. Mae'n bwriadu gosod system ar waith a fydd yn cadw mwy o wybodaeth mewn un man a'i gwneud yn symlach i swyddogion gadw cofnodion diweddaraf arolygiadau adeiladau statudol.
- Yn 2018, symudodd y Cyngor i fodel landlord corfforaethol i ddarparu golwg gorfforaethol gliriach, ganolog ar asedau, gan gydnabod bod y model blaenorol yn dameidiog. Yn ystod ein hadolygiad, roedd swyddogion yn agored bod y pandemig wedi effeithio ar allu'r Cyngor i ymgorffori'r model hwn yn llawn a bod angen rhagor o waith i sicrhau bod hyn yn gweithredu fel y bwriadwyd.
- Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ar waith i fonitro ac adolygu ei asedau. Mae penderfyniadau allweddol a data perfformiad am asedau yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Landlord Corfforaethol (CLB) a'r Bwrdd Iechyd a Diogelwch Landlord Corfforaethol, sy'n cyfarfod bob chwarter. Cynrychiolir pob gwasanaeth ar y CLB. Mae yna fyrddau sy'n benodol i wasanaethau hefyd, fel y bwrdd moderneiddio ysgolion. Bu hefyd grŵp gorchwyl a gorffen trosglwyddo asedau cymunedol. Gellir uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol os oes angen. Er enghraifft, mae Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CMB) a chraffu wedi derbyn diweddariadau ar drosglwyddiadau asedau cymunedol. Mae CMB hefyd wedi cael y diweddaraf am asesiadau cydymffurfedd statudol diogelwch adeiladau'r Cyngor er bod cyfraddau perfformiad yn parhau'n faes sy'n peri pryder.

- Mae AMP dros dro y Cyngor yn nodi rhai targedau, fel lefel y derbyniadau cyfalaf a throsglwyddiadau asedau cymunedol y mae'n ceisio’u cyflawni yn 2021-22. Bydd y rhain yn helpu'r Cyngor i bennu ei gynnydd wrth gyflawni ei gynllun dros dro. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn meincnodi ei berfformiad na’i ddull o ran asedau o’u cymharu â chynghorau eraill i archwilio sut y gall ddysgu a chryfhau ei drefniadau. Rydym yn gwerthfawrogi y bu hyn yn anodd yn ystod y pandemig.
- Bydd y gallu i gymharu data a pherfformiad â sefydliadau eraill yn parhau i fod yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian. Bydd yn her i gynghorau ei hystyried yn arbennig wrth iddynt barhau i weithredu'r gofynion sy'n ymwneud â hunanasesu a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Er mwyn cryfhau ei drefniadau, dylai'r Cyngor archwilio sut y gall gymharu ei ddata, ei drefniadau, a'r dysgu gan sefydliadau eraill, er enghraifft drwy rwydweithiau proffesiynol sy'n bodoli eisoes.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.